C Ff G
BCW
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL SIROEDD CADWEDIG MORGANNWG GANOL A GWENT

ADRODDIAD AR YMCHWILIAD LLEOL A GYNHALIWYD 28 MEHEFIN 2004 YN SIAMBR Y CYNGOR, CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AC AR 30 MEHEFIN 2004 YNG NGHANOLFAN CELFYDDYDAU'R MUNI, PONTYPRIDD

COMISIWN FFINIAU i GYMRU

ADOLYGIAD CYFFREDINOL O ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIROEDD GWENT A MORGANNWG GANOL

ADRODDIAD

Yn dilyn Ymchwiliad Lleol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 28 Mehefin 2004 ac yng Nghanolfan Celfyddydau'r Muni, Pontypridd ar 30 Mehefin 2004

CYFLWYNIAD

1. Cynhaliwyd yr Ymchwiliad i ystyried Argymhellion Dros Dro y Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn"), ar gyfer Etholaethau Seneddol Siroedd Gwent a Morgannwg Ganol ac unrhyw gynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â nhw.

2. Cyfansoddir y Comisiwn o dan Atodlen 1 Parliamentary Constituencies Act 1986. Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn darparu'r "Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau".

3. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ'r Cyffredin a chynnal adolygiad cyffredinol o'r Etholaethau Seneddol yn gyfnodol, bob wyth i ddeuddeng mlynedd. Ym mis Rhagfyr 2002, cyhoeddodd y Comisiwn ei bumed adolygiad cyffredinol trwy roi rhybudd i'r Dirprwy Brif Weinidog o'i fwriad i ystyried llunio adroddiad a chyhoeddwyd yr hysbysiad hwnnw yn y London Gazette ar 16 Rhagfyr 2002. Cyhoeddodd y Comisiwn ddatganiad newyddion yn cyhoeddi'r adolygiad cyffredinol ym mis Ionawr 2003.

4. Cyhoeddodd y Comisiwn ei Argymhellion Dros Dro ar gyfer Cymru gyfan ym mis Ionawr 2004 yn dilyn datganiad i'r wasg ar 29 Rhagfyr 2003. Cyhoeddwyd yr Argymhellion Dros Dro ar gyfer Gwent a Morgannwg Ganol mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Ionawr 2004.

5. Yn ychwanegol, gwnaed copïau o'r cynigion ar gael mewn prif fannau cyhoeddus lleol a cheisiwyd cynrychiolaethau mewn perthynas â nhw, ymhen un mis o'u cyhoeddi.

6. Cafodd y Comisiwn 69 o gynrychiolaethau ysgrifenedig yn y cyfnod o fis gan unigolion a sefydliadau. Roedd 41 o'r cynrychiolaethau yn cynnwys gwrthwynebiadau i'r holl gynigion neu rai ohonynt ar gyfer Gwent a Morgannwg Ganol yr oedd y cynrychiolaethau yn gysylltiedig â nhw.

7. Yng ngolwg y gwrthwynebiadau, roedd angen i'r Comisiwn gynnal Ymchwiliad Lleol i'w Hargymhellion Dros Dro yn unol ag adran 6(2) Deddf 1986. Cyhoeddwyd Rhybudd o'r Ymchwiliad Lleol mewn papurau newydd lleol ar 17 Mai 2004.

8. Cyhoeddwyd copïau o'r holl gynrychiolaethau, ynghyd â chrynodeb, fel llyfryn, ac fe'i ddosbarthwyd yn eang i bartïon cyfrannog, awdurdodau a sefydliadau ac fe'i osodwyd hefyd i'r cyhoedd ei weld a'i arolygu, mewn mannau o fewn pob un o'r etholaethau arfaethedig.

AMCAN Y COMISIWN

9. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Nid yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth o gwbl i ystyriaethau gwleidyddol, canlyniadau etholiadol nac effaith ei argymhellion ar etholiadau'r dyfodol. Ei amcan yw rhannu ardaloedd yn etholaethau er mwyn gweithredu'r Rheolau Ailddosbarthu Seddau yn Atodlen 2 Deddf 1986. Yn ei hanfod, mae'r rhain yn gofyn y dylai'r Comisiwn:

   a) beidio â chynyddu'n sylweddol gyfanswm nifer y seddau ym Mhrydain Fawr;

   b) creu etholaethau sy'n cael eu cynnwys o fewn ffiniau siroedd cadwedig yn gyfan gwbl, er bod gan y Comisiwn ddisgresiwn i argymell etholaethau sy'n croesi'r ffiniau hynny;

   c) llunio etholaethau gyda phleidleiswyr mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol â'r cwota etholiadol a chydag etholaethau cymdogol, er bod gan y Comisiwn ddisgresiwn i wyro o'r rheol hon;

d) creu etholaethau o faint, siâp a hygyrchedd addas i ystyried unrhyw ystyriaethau daearyddol arbennig; ac

e) ystyried yr anghyfleustra a achosir a'r cysylltiadau lleol a dorrir gan y newidiadau i'r etholaethau presennol, ac eithrio'r newidiadau a wneir at ddibenion cydymffurfio â'r gofyniad yn b) uchod.

10. Yn ychwanegol at y meini prawf statudol hyn, mae'r Comisiwn yn ystyried y canlynol:

a) ffiniau awdurdodau unedol, lle bo'n bosibl;

b) ni ddylai adrannau etholiadol llywodraeth leol gael eu rhannu rhwng etholaethau;

c) ni ddylai etholaethau gael rhannau ar wahân;

d) ni ddylai'r Comisiwn geisio gwahaniaethu rhwng cynrychiolaeth ardaloedd gwledig a threfol, ac eithrio yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan ystyriaethau daearyddol arbennig; ac

e) ni ddylai'r Comisiwn ystyried beichiau gwaith etholaeth ASau, ac eithrio lle nodir gan nifer yr etholwyr ac unrhyw ystyriaethau daearyddol arbennig.

11. Gosododd y rhybudd i'r Dirprwy Brif Weinidog o ddechrau'r adolygiad cyffredinol y dyddiad hwnnw, sef 16 Rhagfyr 2002, fel y "Dyddiad Rhestru" at ddibenion yr adolygiad. Yn unol â hynny, roedd angen i'r Comisiwn seilio'i argymhellion dros dro trwy gyfeirio at nifer yr etholwyr ar y gofrestr etholiadol ar y dyddiad hwnnw.

12. Mae Rheol 5 yn gofyn i'r Comisiwn (yn amodol yn unig ar effaith y Rheolau eraill) i osod etholwyr etholaethau mor agos ag sy'n bosibl i'r cwota etholiadol. Yng Nghymru ar 16 Rhagfyr 2002, **roedd 2,225,599 o etholwyr**, ac wedi'u rhannu gan nifer y seddau, 40, mae'n rhoi **cwota o 55,640**.

13. Gan roi ystyriaeth benodol i'r ffaith bod y ffin rhwng y ddwy sir gadwedig wedi newid ers yr adolygiad diwethaf, yn rhinwedd Gorchymyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2003, a bod un etholaeth bellach yn cael ei rhannu rhwng y ddwy sir, daeth y Comisiwn i'r casgliad y byddai ystyried dwy sir gadwedig Gwent a Morgannwg Ganol gyda'i gilydd yn lleihau'r problemau sy'n codi'n anochel wrth eu hystyried ar wahân, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag anghysonderau helaeth rhwng etholaethau a'r cwota, anghysonderau helaeth rhwng etholwyr etholaethau cymdogol, neu ail-lunio etholaethau presennol gyda'r anghyfleustra dilynol a thorri cysylltiadau lleol y byddai hyn yn ei olygu. Felly,

penderfynodd y Comisiwn, *"ei bod hi'n briodol ystyried y ddwy sir gyda'i gilydd at ddiben llunio eu hargymhellion dros dro ar gyfer ffiniau etholaethol."*

SIROEDD GWENT A MORGANNWG GANOL

14. Nifer yr etholwyr ar y dyddiad rhestru yn sir gadwedig Gwent yw 426,826 a'r nifer yn sir gadwedig Morgannwg Ganol yw 306,817, sydd, o'u rhannu gan y cwota etholaethol, sef 55,640, yn rhoi hawl ddamcaniaethol ar y cyd o 13.19 sedd ar gyfer y ddwy sir. Ar hyn o bryd, mae 13 o etholaethau.

15. Mae etholaethau'r seddau presennol yn dangos anghyfartaledd rhwng y mwyaf, sef Caerphilly County Constituency (68,678) a'r lleiaf, sef Cynon Valley County Constituency (44,418) o 24,260.

YR ARGYMHELLION DROS DRO

16. Roedd argymhellion dros dro y Comisiwn fel a ganlyn:

(i) **clustnodi 13 sedd** i Went/Morgannwg Ganol a chadw at batrwm sylfaenol y 13 etholaeth;

(ii) peidio â gwneud **unrhyw newid** i ffiniau chwech etholaeth, sef **Merthyr Tydfil CC; Monmouth CC, Newport East CC; Newport West CC; Rhondda CC; ac Torfaen CC**;

(iii) newid ffin **Blaenau Gwent CC** er mwyn cynnwys adran etholiadol cyfan Sirhywi (14) sydd ar hyn o bryd yn pontio'r etholaeth honno a Etholaeth Seneddol Merthyr Tudful a Rhymni. Nid yw'r newid daearyddol hwn yn effeithio ar unrhyw etholwyr;

(iv) newid ffin **Bridgend CC** er mwyn cynnwys adran etholiadol cyfan Llangrallo Isaf (14) sydd ar hyn o bryd wedi'i rhannu rhyngddi ac Etholaeth Seneddol Bro Morgannwg. Nid yw'r newid daearyddol hwn yn effeithio ar unrhyw etholwyr;

(v) Er mwyn sicrhau bod ffiniau'r etholaethau yn gyson â ffiniau llywodraeth leol yn yr ardal hon, mae adrannau etholiadol Saint-y-brid (20) a Llandŵ/Ewenni (13) i gael eu tynnu i ffwrdd o **Bridgend CC** fel y mae ar hyn o bryd, a'u cynnwys yn etholaeth Bro Morgannwg;

(vi) Er mwyn sicrhau nad yw'r adrannau etholiadol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau, mae adran Pen-tyrch (19), sydd ar hyn o bryd yn **Pontypridd CC**, i gael ei chynnwys yn sir gadwedig De Morgannwg ac mae hon ac adrannau etholiadol cyfan Creigiau/Sain Ffagan (6) i gael eu cynnwys yn Etholaeth Gorllewin Caerdydd.

(vii) Am resymau tebyg, mae adran etholiadol Y Bont-faen (7), sydd ar hyn o bryd wedi'i rhannu rhwng etholaethau **Ogmore CC** a Bro Morgannwg, yn cael ei chynnwys yn etholaeth Bro Morgannwg;

(viii) Er mwyn lleihau'r anghyfartaledd rhwng nifer etholwyr etholaethau penodol

- **Mae Bridgend CC yn colli adrannau etholiadol Abercynffig (1) a Chefn Cribwr (10) i Ogmore CC;**
- **Mae Caerphilly CC yn colli adrannau etholiadol Aberbargoed (1), Bargoed (5) a Gilfach (12) i Islwyn CC;**
- **Mae Pontypridd CC yn colli Cilfynydd (9) a Glyncoch (15) i Cynon Valley CC.**

17. Dyma fyddai effaith argymhellion dros dro y Comisiwn (gyda newidiadau wedi'u hamlygu) ar etholwyr 2003:-

	PRESENNOL	ARG DROS DRO
Blaenau Gwent CC	53,120	53,120
Bridgend CC	62,692	**57,046**
Caerphilly CC	68,678	**59,576**
Cynon Valley CC	44,418	**48,272**
Islwyn CC	51,667	**60,769**
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	55,476	55,476
Monmouth CC	62,423	62,423
Newport East CC	56,355	56,355
Newport West CC	60,882	60,882
Ogmore CC	51,016	**53,842**
Pontypridd CC	62,937	**54,122**
Rhondda CC	50,389	50,389
Torfaen CC	61,371	61,371

Felly, mae'r gwahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf o'r tair etholaeth ar ddeg yn cael ei leihau i **14,151** o 24,260 ac uchafswm yr amrywiad o gwota etholiadol Cymru gyfan yn cael ei leihau o 13,038 uwchlaw (Caerphilly CC) ac 11,222 islaw (Cynon Valley CC) i **6,783 uwchlaw'r cwota (Monmouth CC)** a **7,368 islaw iddo (Cynon Valley CC).**

CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD

18. Gellir crynhoi'r cynrychiolaethau a gafwyd fel a ganlyn:

- Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau ond cefnogaeth eang dros ymagwedd y Comisiwn o ystyried y ddwy sir gadwedig gyda'i gilydd;
- Mewn perthynas â'r chwech etholaeth "heb eu newid" nid oedd unrhyw wrthwynebiadau ond cafwyd llythyrau yn cefnogi'r argymhellion dros dro:

Merthyr Tydfil and Rhymney CC

- Plaid Lafur Etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni
- Dai Havard AS
- Huw Lewis AC

Monmouth CC

- Plaid Lafur Etholaeth Trefynwy
- Huw Edwards AS

Newport East CC

- Plaid Lafur Etholaeth Dwyrain Casnewydd
- Y Gwir Anrhydeddus Alan Howarth CBE AS
- John Griffiths AC

Newport West CC

- Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Casnewydd

Torfaen CC

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Plaid Lafur Blaenafon
- Plaid Lafur Etholaeth Torfaen
- Y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS
- Lynne Neagle AC

Blaenau Gwent CC
Rhondda CC

- ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r naill etholaeth na'r llall.

19. Mewn perthynas â gweddill yr etholaethau yng Ngwent/Morgannwg Ganol, cafwyd gwrthwynebiadau a llythyrau o gefnogaeth:

Bridgend CC ac Ogmore CC

Cafwyd y cynrychiolaethau canlynol mewn ymateb i argymhellion dros dro y Comisiwn i leihau nifer etholwyr Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr trwy drosglwyddo adrannau etholiadol Cefn Cribwr (10) ac Abercynffig (1) i Etholaeth Ogwr:

Gwrthwynebiadau

- Cafwyd 11 llythyr yn gwrthwynebu'n unig i'r argymhelliad i symud adran etholiadol Cefn Cribwr (10) o Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i Etholaeth Ogwr:

- Cyngor Cymuned Cefn Cribwr
- Cyngor Cymuned Cefn Cribwr, deiseb gyda 372 o lofnodion
- Cyngor Cymuned Trelales

- Cyngor Cymuned y Pîl
- Cangen Bryntirion y Blaid Lafur
- Plaid Cymru – Cangen Cynffig
- Sefydliad y Merched Cefn Cribwr
- K G Burnell
- Edna David
- Ceri Griffiths
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Gwrthwynebodd 5 cynrychiolaeth arall i'r argymhelliad yn ymwneud â Chefn Cribwr (10) ond hefyd mynegwyd pryder neu roddwyd sylwadau ganddynt, ar un neu fwy o'r adrannau etholiadau cyfagos / ardaloedd Abercynffig (1), Pen-y-Fai (32), Llangrallo Isaf (14) a Choety (12).

- Plaid Lafur Cefn Cribwr
- Win Griffiths AS
- Carwyn Jones AC
- Cyng Edith M Hughes
- Mrs V R Pole

Cefnogaeth

- Cefnogodd 8 cynrychiolaeth yr argymhellion dros dro mewn perthynas â Chefn Cribwr (10) ac Abercynffig (1):

- Plaid Geidwadol Cymru
- Plaid Lafur Cymru
- Y Blaid Geidwadol Cangen De Ddwyrain Cymru
- Cymdeithas Geidwadol Pen-y-bont ar Ogwr
- Paul Flynn AS
- Leighton Andrews AC
- Cyng Jeff Jones
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Caerphilly CC ac Islwyn CC

20. Cafwyd y cynrychiolaethau canlynol mewn ymateb i argymhellion dros dro y Comisiwn i leihau nifer etholwyr Etholaeth Caerffili trwy drosglwyddo adrannau etholiadol Aberbargoed (1), Bargoed (5) a Gilfach (12) i Etholaeth Islwyn:

Gwrthwynebiadau

- Cafwyd un ddeiseb gyda 160 o lofnodion o dan enwau'r Cynghorydd H A Andrews (Ward Gilfach) a'r Cynghorydd D T Davies (Ward Bargoed) yn gwrthwynebu trosglwyddo adrannau etholiadol Bargoed (5) a Gilfach (12) i etholaeth Islwyn.

- Cafwyd 5 llythyr a oedd

    a) yn gwrthwynebu trosglwyddo Bargoed (5) a Gilfach (12)
    b) yn cytuno â'r argymhellion i drosglwyddo Aberbargoed (1)
    c) hefyd yn awgrymu trosglwyddo Maesycwmmer (15) i Islwyn

    - Plaid Lafur Etholaeth Islwyn
    - Wayne David AS
    - Don Touhig AS
    - Jeff Cuthbert AC
    - Irene James AC

    (Gweler hefyd y **"Gwrthgynnig"** isod)

Cefnogaeth

- Cafwyd 5 llythyr yn cefnogi'r argymhellion dros dro

    - Plaid Geidwadol Cymru
    - Plaid Geidwadol Cymru yn Ne Ddwyrain Cymru
    - Cymdeithas Geidwadol Caerffili
    - Paul Flynn AS
    - Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

- Yn ychwanegol, trwy gynrychiolaeth ysgrifenedig, cydnabu Plaid Lafur Cymru y gallai'r argymhellion dros dro dorri cysylltiadau lleol ond ni wnaed unrhyw wrthwynebiad.

Cynon Valley CC ac Pontypridd CC

21. Cafwyd y cynrychiolaethau canlynol mewn ymateb i argymhellion dros dro y Comisiwn i gynyddu nifer etholwyr Etholaeth Cwm Cynon trwy drosglwyddo adrannau etholiadol Cilfynydd (9) a Glyncoch (15) o Etholaeth Pontypridd:

Gwrthwynebiadau

- Cafwyd 10 llythyr **yn gwrthwynebu trosglwyddo Cilfynydd (9) a Glyncoch (15):**

    - Cyngor Tref Pontypridd
    - Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd
    - Dr. Kim Howells AS
    - Jane Davidson AC
    - Grŵp Llafur Rhondda Cynon Taf (a gyflwynwyd fel rhan o gynrychiolaeth Jane Davidson)
    - Mrs Muriel Gulliford
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
    - Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

- Dr Kim Howells AS (gan amgáu 293 o lythyrau wedi'u llofnodi)
- Graham Davies (gan gynnwys deiseb o 162 o lofnodion)

- cafwyd 4 llythyr yn gwrthwynebu trosglwyddo Cilfynydd (9).

- Mr a Mrs K Bennett
- Mr a Mrs Mona Jones
- Mr L Mainwaring
- Mrs D Mears

- Deiseb dan enw'r Cyng Steve Belzak gyda 71 o lofnodion.

- Cafwyd 2 lythyr yn gwrthwynebu trosglwyddo Glyncoch (15).

  - Cymdeithas Pensiynwyr Glyncoch ynghyd â Deiseb gyda 43 o lofnodion (a gyflwynwyd fel rhan o gynrychiolaeth Jane Davidson)
  - Grŵp Llafur Cyngor Tref Pontypridd (a gyflwynwyd fel rhan o gynrychiolaeth Jane Davidson)

  - Yn ychwanegol, cyflwynwyd Deiseb gyda 499 o lofnodion fel rhan o gynrychiolaeth Jane Davidson.

Cefnogaeth

- Cyflwynwyd 6 llythyr yn cefnogi'r cynnig hwn:

  - Plaid Geidwadol Cymru
  - Y Blaid Geidwadol yn Ne Ddwyrain Cymru
  - Plaid Lafur Etholaeth Cwm Cynon
  - Paul Flynn AS
  - Christine Chapman AC
  - J.S.Coduri

- Yn ychwanegol, ni wnaeth Plaid Lafur Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro ond dywedodd y gallai dorri cysylltiadau lleol.

Adran etholiadol Creigiau / Sain Ffagan (6) a Phen-tyrch (19)

22. Argymhellodd y Comisiwn, yn eu hargymhellion dros dro, fod adran etholiadol cyfan Creigiau/Sain Ffagan (6) yn cael ei chynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae adran etholiadol Pen-tyrch (19) yn etholaeth Pontypridd. Fodd bynnag, o ganlyniad i Local Government (Wales) Act 1994, cafodd adran etholiadol Pen-tyrch (19) ei chynnwys yn Sir Gadwedig De Morgannwg. Yn eu hargymhellion dros dro, argymhellodd y Comisiwn fod adran etholiadol Pen-tyrch (19) yn cael ei throsglwyddo i etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Gwrthwynebiadau

Cynrychiolaethau'n gwrthwynebu'r cynigion hyn

- Plaid Lafur Etholaeth Pontypridd
- Mynegodd Dr Kim Howells AS bryder bod Creigiau a Phen-tyrch yn cael eu "gwthio" i Etholaeth Gorllewin Caerdydd

Cefnogaeth

Cafwyd cynrychiolaethau yn mynegi cefnogaeth dros y cynigion hyn gan y canlynol:

- Plaid Geidwadol Cymru
- Plaid Lafur Cymru
- Plaid Lafur Etholaeth De Caerdydd a Phenarth
- Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd
- Lorraine Barrett AC
- Cyngor Cymuned Pen-tyrch (a gyflwynwyd fel rhan o gynrychiolaeth Jane Davidson)
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Adrannau etholiadol Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni

23. Argymhellodd y Comisiwn, yn eu hargymhellion dros dro, i gynnwys adrannau etholiadol Saint-y-brid (20) a Llandŵ/Ewenni (13) yn Etholaeth Bro Morgannwg.

Gwrthwynebiadau

Cynrychiolaethau'n gwrthwynebu'r cynigion i gyd neu rai ohonynt:

- Plaid Lafur Cangen Ewenni a'r Fro
- Jane Hutt AC
- Dr E A Bowers

Cefnogaeth

Llythyrau yn mynegi cefnogaeth dros y cynigion hyn i gyd neu rai ohonynt:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Plaid Geidwadol Cymru
- Plaid Lafur Cymru
- Cymdeithas Geidwadol Pen-y-bont ar Ogwr
- Plaid Lafur Etholaeth De Caerdydd a Phenarth
- Lorraine Barrett AC
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Gwrthgynnig: Caerphilly CC & Islwyn CC

24. Roedd y cynrychiolaethau yn gwrthwynebu argymhellion dros dro y Comisiwn yn cynnwys 1 gwrthgynnig. Cyflwynodd Plaid Lafur Etholaeth Islwyn, Don Touhig AS, Wayne David AS, Irene James AC a Jeff Cuthbert AC yr un gwrthgynnig.

25. Cynigiwyd ganddynt fod adrannau etholiadol Bargoed (5) a Gilfach (12) yn parhau'n rhan o etholaeth Caerffili ond bod adran etholiadol Maesycwmmer (15) yn cael ei throsglwyddo o Etholaeth Caerffili i Etholaeth Islwyn yn ogystal ag Aberbargoed (1). Dadleuwyd ganddynt fod gan ardaloedd Aberbargoed a Maesycwmmer gysylltiadau lleol gwell gydag Islwyn na Bargoed a Gilfach a bod Afon Rhymni'n cynnig ffin naturiol ac ymarferol rhwng Caerffili ac Islwyn.

26. Byddai'r gwrthgynnig, o'i ddefnyddio yn argymhellion dros dros y Comisiwn yn arwain at yr etholwyr yn cael eu trefnu fel a ganlyn:

- Byddai gan **Caerphilly CC 64,120** o etholwyr – cynnydd o 4,544 dros gynigion y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth hon;
- Byddai **Islwyn CC** yn cael ei lleihau o 60,769 i **56,225**, gan fynd ag ef yn agos iawn at ffigur cwota Cymru gyfan;
- Byddai'r gwahaniaeth rhwng yr etholaethau mwyaf a lleiaf yn cynyddu o gynigion y Comisiwn, o 14,151 i **15,848**;
- Yn ychwanegol, byddai uchafswm yr amrywiad uwchlaw ffigur cwota etholiadol Cymru gyfan yn cynyddu o 6,783 (argymhellion dros dro y Comisiwn) i **8,480** – ond dylid nodi bod y ffigur ei hun yn ostyngiad sylweddol ar y sefyllfa bresennol, sef 13,238, pe na wnaed unrhyw newid o gwbl.

27. Felly, cododd y cynrychiolaethau yn ei hanfod y materion a fyddai'n ganolog i'r dystiolaeth a roddwyd yn yr ymchwiliad lleol, sef:

a) A ddylai adrannau etholiadol Abercynffig (1) a Chefn Cribwr (10) gael eu trosglwyddo o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i etholaeth Ogwr pan wrthwynebwyd y cynnig am y byddai'n torri cysylltiadau lleol **("Mater Abercynffig a Chefn Cribwr**)?

b) A ddylai adrannau etholiadol Bargoed (5) a Gilfach (12) gael eu trosglwyddo o etholaeth Caerffili i etholaeth Islwyn pan wrthwynebwyd y cynnig am y byddai'n torri cysylltiadau lleol; at hynny, a yw'r gwrthgynnig yn ffordd well o ddatrys y broblem **("Mater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer")?**

c) A ddylai adrannau etholiadol Cilfynydd (9) a Glyncoch (15) gael eu trosglwyddo o etholaeth Pontypridd i etholaeth Cwm Cynon pan wrthwynebwyd yn eu herbyn am y byddai'n torri cysylltiadau lleol **("Mater Cilfynydd a Glyncoch")?**

GWRANDAWIADAU'R YMCHWILIAD LLEOL

28. Yn Siambr y Cyngor ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar 28 Mehefin 2004, ac yng Nghanolfan Celfyddydau'r Muni, Pontypridd ar 30 Mehefin 2004, rhoddwyd tystiolaeth a/neu gwnaed cyflwyniadau fel a grynhoir isod:

29. Canolbwyntiodd **Mr Win Griffiths AS Pen-y-bont ar Ogwr** ar "Fater Abercynffig a Chefn Cribwr". Sail ei wrthwynebiad i'r cynnig oedd y byddai cysylltiadau lleol cryf yn cael eu torri. Edrychai pobl Cefn Cribwr (10) i Ben-y-bont ar Ogwr ac nid i Ogwr. Ffocws cyfathrebiadau cyhoeddus ar gyfer Cefn Cribwr yw Pen-y-bont ar Ogwr. Mewn ateb i gwestiwn gan Mr Chris Smart (Plaid Geidwadol Cymru), ceisiodd Mr Griffiths bwysleisio hyn trwy ddweud y byddai mynd i rannau o etholaeth Ogwr o Gefn Gribwr *"gymaint â hynny'n fwy anghyfleus. Felly rwy'n credu ei fod yn arwyddocaol."*

30. Dywedodd, ar wahân i gyflwyniad David Unwin, o'r Blaid Geidwadol leol, ni chafwyd yr un cyflwyniad lleol yn cefnogi'r argymhelliad dros dro. Roedd cyflwyniadau Mr Unwin, sef bod y newidiadau'n gwneud "synnwyr daearyddol a chymunedol" yn gwbl annialadwy. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol nad yw cynnig y Comisiwn yn torri unrhyw gysylltiadau lleol yn "*amlwg yn hurt*". Roedd y Ceidwadwyr, yn ganolog yng Nghaerdydd, yn cefnogi'r cynnig, ond roedd yn deall eu bod yn cymeradwyo'r egwyddor o "*ddod ag etholaethau ychydig yn agosach at ei gilydd yn fathemategol*" yn hytrach nag ystyried y mater "cysylltiadau lleol". Dywedodd Mr. Win Griffiths, er gwaethaf cefnogaeth cyn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Mr Jeff Jones, dros gynigion y Comisiwn, mae'r Cyngor ei hun "*yn cefnogi achos Cefn Cribwr*".

31. Gwnaeth Mr Win Griffiths y pwynt petai Cefn Cribwr (10) yn aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr "*byddai dal i fod pum etholaeth mwy o faint na Phen-y-bont ar Ogwr yn ardal Gwent/Morgannwg Ganol ac y byddai dal i fod dwy gyda niferoedd llai nag etholaeth Ogwr*". Awgrymodd y gallai unrhyw newid o'r math a gynigir aros nes yr adolygiad nesaf

ymhen deng mlynedd pan fyddai materion datblygu tai wedi'u datrys ac y byddai symudiadau'r boblogaeth yn gliriach.

32. Dechreuodd **Mr Carwyn Jones AC dros Ben-y-bont ar Ogwr,** roi ei dystiolaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cefnogi sefyllfa Mr Win Griffiths. Dywedodd fod cysylltiadau cludiant yn gweithio tuag at gynnal a chadw Cefn Cribwr (10) yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr a chododd dair ystyriaeth bellach:

- I ddechrau, mae plant Cefn Cribwr yn mynd i Ysgol Gyfun Cynffig ac mae'n haws i'r ysgolion ddelio ag un AS neu AC;
- Gofidiau cyffredin cymuned – nododd fel enghraifft, mwynglawdd brig Parc Slip – gallai olygu y byddai dau gynrychiolydd etholedig yn delio ag ef, oherwydd byddai'r gymuned ar ddwy ochr wahanol ffin seneddol;
- Byddai mynediad i gynrychiolwyr etholedig yn anodd i etholwyr Cefn Cribwr oherwydd bod y cysylltiadau cludiant yn rhedeg i Ben-y-bont ar Ogwr ac nid i gyfeiriad etholaeth Ogwr. Gorffennodd ei dystiolaeth trwy ddweud: *"Byddwn yn gofyn yn syml i'r Comisiwn ystyried yn ofalus iawn sefyllfa Cefn Cribwr ac, yn benodol, a fyddai symud Cefn Cribwr i etholaeth Ogwr yn ei gwneud hi dipyn yn anos i bobl y gymuned honno gael mynediad at wasanaethau eu cynrychiolwyr etholedig yn y ffordd y maent yn haeddu."*

33. O gael ei holi, dywedodd Mr Carwyn Jones fod y broblem o gael mynediad at gynrychiolwyr etholedig yn *"mynd y tu hwnt i gyfleustra…Rydym yn sôn am bentref sy'n ystyried ei hun yn gadarn iawn fel pentref lloeren Pen-y-bont ar Ogwr yn hytrach nag yn rhan o gymuned y cymoedd."*

34. Rhoddodd **Mrs. Alana Davies, y Cynghorydd ar gyfer Ward Canol Dwyrain Porthcawl,** dystiolaeth yn cefnogi Mr Win Griffiths a Mr Carwyn Jones. Nid oedd yn credu y dylid trosglwyddo Cefn Cribwr (10), gan y byddai hyn yn torri cysylltiadau hanesyddol gyda Phorthcawl a'i chymunedau cyfagos, a oedd yn cynnwys Cefn Cribwr. Roedd plant Cefn Cribwr yn mynd i Ysgol Gyfun Porthcawl, ac er nad oedd yn awgrymu y byddai pethau yn newid yn hyn o beth petai cynigion y Comisiwn yn cael eu gweithredu, dywedodd fod hyn yn arddangos y cysylltiadau lleol a oedd yn bodoli

rhwng y cymunedau. Fodd bynnag, o gael ei holi gan Mr Brian Johnston (Cadeirydd, Cyngor Cymuned Cefn Cribwr) ymddangosai fel petai'n derbyn y cynnig bod yn rhaid bod rhywfaint o bryder y gallai dalgylchoedd yr ysgol newid, ond o gael ei holi gennyf i, derbyniodd hi bod hyn yn fater o ddyfalu mewn gwirionedd.

35. Cefnogodd **Mr Reg Jenkins, y Cynghorydd ar gyfer Ward Pontycymer,** Mr Win Griffiths a'r sawl a'i ddilynodd ar y mater hwn. Dywedodd fod cymuned Cefn Cribwr wedi bod yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr er 86 o flynyddoedd ac ni ddylid ei newid. Dywedodd er ei fod yn byw y tu allan i Gefn Cribwr, roedd yn cynrychioli safbwynt y gymuned.

36. Gofynnodd **Mr Huw David, y Cynghorydd ar gyfer Ward Cefn Cribwr,** pam nad oedd y Comisiwn wedi ystyried adrannau eraill sy'n ffinio ag etholaeth Ogwr, yn hytrach na Chefn Cribwr, nad yw'n ffinio ag Ogwr. Awgrymodd fod *"ganddynt gysylltiadau ag etholaeth Ogwr nad oedd gan Gefn Cribwr, a bod yn berffaith onest. Hwyrach fod ganddynt rai cysylltiadau ond mae'n sicr nad oes ganddynt gysylltiadau sylweddol."*

    Cyfeiriodd Mr David hefyd at yr anawsterau cludiant a soniodd eraill amdanynt a'r anawsterau a welai wrth i etholwyr gael mynediad at eu cynrychiolwyr petai trosglwyddiad yn digwydd.

37. Ailadroddodd **Mr Brian Johnson, Cadeirydd Cyngor Cymuned Cefn Cribwr,** y pwynt nad oedd unrhyw ffiniau'n cael eu rhannu gan yr adran hon ag etholaeth Ogwr. Ni allai ddeall pam yr oedd Cefn Cribwr (10) yn cael ei "*gwthio allan*", oherwydd, fel y gwelai ef hi, yr ystâdau tai newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

38. Atgoffodd **Mrs Violet Pole**, cyn aelod Cyngor Cymuned Cefn Cribwr, y Comisiwn fod newid yn ddryslyd i'r etholwyr ac yn dilyn cyfres o newidiadau i lywodraeth leol, bod newid arall ar lefel Seneddol ar gyfer yr adran yn hynod annymunol. Dywedodd fod yr ystyriaethau daearyddol yn gwneud y cyfathrebu ag etholaeth Ogwr yn anodd iawn. *"Er ei bod hi'n llai na phum milltir o Gefn Cribwr i Faesteg mewn llinell syth, mae mynydd rhyngddo, a groesir gan ychydig lonydd gwledig cul. Yr unig ffordd ymarferol*

yw trwy Abercynffig. Y pellter o Gefn Cribwr i Faesteg ar y brif ffordd yw 10 milltir union. Mae'n llai na phum milltir o Gefn Cribwr i Ben-y-bont ar Ogwr".

39. Cefnogodd **Mr Robert Hughes, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,** wrthwynebwyr Cefn Cribwr ac er bod ei Gyngor yn cefnogi cynigion y Comisiwn, yn gyffredinol roedd yn dymuno adleisio'r gwrthwynebiadau yn benodol yn hyn o beth. Nododd hefyd fod Arweinydd presennol y Cyngor yn cymeradwyo'r un gwrthwynebiadau hyn.

40. Rhoddodd **Mr Don Touhig, AS ar gyfer Islwyn,** dystiolaeth ar "fater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer". Cytunodd â'r angen i symud tuag at gydraddoldeb yn nifer yr etholwyr yn etholaethau Caerffili ac Islwyn, a chytunodd fod y rheidrwydd hwn wedi cynyddu er adolygiad 1995 pan na wnaed newid i ffiniau'r etholaeth. Fodd bynnag, dywedodd yn gryf fod ei wrthgynnig ef (ac eraill) yn cynnig gwell ateb na'r hyn a gynigiwyd gan y Comisiwn.

41. Cytunodd yn gyfan gwbl â'r cynnig i drosglwyddo Aberbargoed (1) i etholaeth Islwyn ond roedd yn well ganddo gadw Bargoed (5) a Gilfach (12) yn etholaeth Caerffili a throsglwyddo Maesycwmmer (15) i Islwyn. Ei resymau am gynnig hynny oedd:

- bod Afon Rhymni yn ffin naturiol a bod Gilfach (12) a Bargoed (5) yn disgyn i orllewin yr afon ac Aberbargoed (1) a Maesycwmmer (15) yn disgyn i'r dwyrain. Atgoffodd y Comisiwn am ei ganfyddiad ym 1995 fod *"ffactorau daearyddol yn ystyriaeth fawr"* ac ychwanegodd *"Pe bai nodweddion ffisegol yn berthnasol ddeng mlynedd yn ôl, maent yn parhau i fod yn berthnasol heddiw. Rwy'n gwybod bod y Comisiwn yn ystyried y ffactorau hyn wrth wneud ei argymhellion terfynol".*
- Ceir rhesymau hanesyddol cryf sy'n dyddio'n ôl dros ganrif am gadw Gilfach (12) a Bargoed (5) yng Nghaerffili ac Aberbargoed (1) a Maesycwmmer (15) yn Islwyn.
- Roedd barn leol yn ffafrio'r ymagwedd hon yn gryf yn erbyn yr hyn a gynigiwyd gan y Comisiwn.

42. Wrth ddelio â'r rhesymau hanesyddol, gwnaeth Mr Touhig y sylwadau cyrhaeddgar hyn:
"Fel y dywedais, mae'r afon yn rhannu dwy ochr y cwm yn naturiol. Mewn cyd-destun gweinyddol a gwleidyddol, mae'r afon hefyd yn rhaniad naturiol, Yn ôl yn y bedwaredd

ganrif ar bymtheg, cafodd siroedd Mynwy a Morgannwg eu rhannu gan Rhymni, ac efallai y gallaf ddangos hynny'n gryno iawn gyda hanes yr hyn a oedd yn bodoli yn y gorffennol.

Cyn 1832, Afon Rhymni oedd ffin orllewinol etholaeth sirol Sir Fynwy. Am ryw 90 o flynyddoedd ar ôl Deddf y Diwygiad Mawr, roedd seddau seneddol wedi'u seilio ar adrannau sesiynol bach, ac roedd Aberbargoed yn ffurfio rhan o adran Gorllewin Trefynwy, ynghyd â chymuned Bedwellte.

Crëwyd etholaeth seneddol Bedwellte ym 1918 ac roedd yn cynnwys cymunedau Maesycwmmer ac Aberbargoed, fel rydym bellach yn awgrymu. Ar yr adeg honno, roedd hi'n rhesymegol cadw'r ffin draddodiadol a oedd wedi ffurfio'r rhaniad seneddol ar hyd y ganrif flaenorol o leiaf a chyn hynny, a'r ffin, wrth gwrs, oedd Afon Rhymni."

43. Ar wahân i un ad-drefniad llywodraeth leol ym 1974, pan "groesodd Aberbargoed (1) yr afon" i Gyngor Dosbarth Cwm Rhymni, pwysleisiodd Mr Touhig fod yr afon wedi'i ffafrio fel y ffin. At hynny, dywedodd, hyd yn oed ym 1974, i Aberbargoed barhau yn rhan o etholaeth Sirol Bedwellt, i'r dwyrain i'r afon. Nodaf na ddaeth yn rhan o Caerphilly CC nes 1983.

44. Dywedodd Mr Touhig fod pobl leol yn cefnogi ffin yr afon ac na chafwyd unrhyw brotest yn erbyn y cynigion i symud Aberbargoed a Maesycwmmer i Islwyn, a oedd â "*chysylltiadau daearyddol, diwylliannol a hanesyddol cryf â'r cymunedau sy'n ffurfio etholaeth seneddol Islwyn*". Nodaf mai ychydig wrthwynebiad difrifol oedd i'r cynnig hwn, os o gwbl, yn yr ymchwiliad a oedd wedi'i ddosbarthu'n eang.

45. Cytunodd Mr Touhig, o gael ei groesholi gan Mr Chris Smart, fod yn rhaid i'r Comisiwn weithredu i ddelio â'r anghyfartaledd rhwng y seddau ond ailadroddodd ei fod yn credu mai'r gwrthgynnig oedd yr ateb gorau.

46. Enwodd **Mr Wayne David, AS ar gyfer Caerffili,** nifer o drigolion Bargoed (5) ac Aberbargoed (1) a oedd wedi gwneud yr ymdrech i ddod i'r ymchwiliad, sef Mr Ray Thompson, Ysgrifennydd Lleng Brydeinig Bargoed, Mr Alan Higgs, Cynghorydd yn Aberbargoed, Mr Ray Smith a Mr Ron Michael, trigolion Bargoed, Mr Barry Jones un o drigolion Ystrad Mynach, Mrs Joyce Morgan, Cynghorydd ym Margoed a Mr Bill Coleman, cyn dirprwy arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ymddiheurodd ar ran Mr. Harry Andrews, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a oedd, meddai, am gofnodi ei fod yn cefnogi cyflwyniadau Mr David.

47. Dywedodd Mr David ei fod yn cydnabod bod etholaeth Caerffili yn rhy fawr, o gymharu ag etholaethau cyfagos ac o ystyried y cwota. Cydnabu fod rhaid cael newid. Cynigiodd y dadleuon dros y gwrthgynnig. Cadarnhaodd ddadleuon Mr Touhig am ffin yr afon gan awgrymu i'r afon fod yn ffin, ac yn ffin naturiol, o leiaf er y Deddfau Uno ym 1536. Pwysleisiodd fod y bobl leol yn ystyried eu cysylltiadau ar sail gogledd/de ac nid dwyrain/gorllewin. Credai fod nifer yn Aberbargoed (1) yn credu eu bod yn rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd.

48. Roedd ystyriaethau cludiant yn bwysig ac er ei fod yn credu bod gan gymunedau Aberbargoed / Maesycwmer ddiddordeb deuol, hynny yw gogledd/de a dwyrain/gorllewin yn hyn o beth, gan dueddu o blaid Caerffili, roedd dwy adran arall Gilfach a Bargoed yn tueddu'n glir o blaid Caerffili yn hytrach nag Islwyn.

49. Er ei fod yn cydnabod bod angen cael cydbwysedd rhwng ei gynigion ef ei hun a rhai'r Comisiwn, na fyddai'n gallu darparu ar gyfer pob math o farn ar y mater ac nad oedd "*unrhyw ateb pendant*", dywedodd Mr David, wrth ateb cwestiwn Mr Smart, ei fod yn credu bod y gwrthgynnig yn *"llawer gwell ac yn adlewyrchu gofidiau lleol llawer yn well"*.

50. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Higgs (Aberbargoed), yn awgrymu bod gan bobl Aberbargoed fwy o gyswllt ag etholaeth Caerffili nag Islwyn, dywedodd Mr David, mewn byd delfrydol ni fyddai unrhyw newid, ac er ei fod yn cydymdeimlo â'r teimladau a fynegwyd yn y cwestiwn, roedd rhaid iddo ystyried y niferoedd – roedd rhaid cael newid. Dywedodd er eu bod yn agos iawn yn ffisegol, roedd yr ystyriaethau daearyddol yn golygu eu bod yn gymunedau eithaf annhebyg. Wedi dweud hyn, cyfiawnhaodd Mr David eu rhannu fel yr oedd yn cynnig. Rhoddodd ymateb tebyg i gwestiwn tebyg gan Mr Smith (Plaid Lafur Cymru)

51. Ar ôl tystiolaeth Mr David a'i gefnogwyr, gofynnais y cwestiwn canlynol:

    "Cyn i Mr David adael, ga i ofyn a oes unrhyw un yma o Faesycwmmer sy'n dymuno rhoi sylwadau ynghylch pam na ddylid symud Maesycwmer fel y mae'r gwrthgynnig yn ei awgrymu? Os oes, gofynnaf iddo ef neu iddi hi ddod ymlaen nawr fel y gall Mr David, sef yr un sy'n gwneud y gwrthgynnig, ddelio â'r mater"

    Nid oedd unrhyw un yn dymuno leisio barn.

52. Cymeradwyodd **Mr Jeffrey Cuthbert, AC ar gyfer Caerffili** y pwyntiau a godwyd gan Mr David. Bu'n byw yn yr ardal ac yn gweithio yn Aberbargoed (1) am nifer o flynyddoedd ac roedd yn adnabod y gymuned yn dda. Roedd safle ei Swyddfa yng Ngilfach (12) a gwelai gyswllt clir rhwng Gilfach a Bargoed ac roedd gan y ddau gysylltiad â Chaerffili. O ran Aberbargoed, siaradodd am anawsterau ffisegol posibl wrth weithredu fel Cymuned tair ffordd, hynny yw Bargoed, Aberbargoed a Gilfach, oherwydd bodolaeth yr afon fel ffin ffisegol, a oedd yn gwahanu Aberbargoed. Credai, o gofio'r angen am newid, bod y gwrthgynnig y "*lleiaf o ddau ddrwg"* ac y byddai'n achosi llai o ddryswch i'r etholwyr gan fod y ddwy ardal a fyddai'n rhan o Islwyn wedi bod yn rhan o etholaeth Bedwellte yn wreiddiol.

53. Cefnogodd **Mrs Irene James, AC ar gyfer Islwyn,** y gwrthgynnig. Dywedodd fod nod y Comisiwn yn iawn ond bod y "*rhesymeg demograffig a daearyddol cryf*" yn sefyll gyda'r gwrthgynnig. Yr afon oedd y ffin amlwg ac roedd ei chynnig yn ystyried y cysylltiadau lleol cryf a oedd yn bodoli. O gael ei holi, cytunodd y byddai symud Aberbargoed (1) fwy na thebyg yn torri cysylltiadau lleol ond bod gan y gymuned gysylltiadau eisoes ar ochr Islwyn ac y gellid adfer unrhyw gysylltiadau neu o leiaf eu disodli'n ddigonol. Anghytunodd ag awgrym Mr Lea bod sgiliau peirianneg modern yn golygu nad oedd afon bellach yn rhwystr gwirioneddol, i'r graddau bod hynny'n awgrymu y byddai'r cymunedau ar ddwy ochr yr afon yn cael eu hystyried yn un.

54. Rhoddodd **Mr Lea, Cadeirydd Cymdeithas Geidwadol Caerffili,** dystiolaeth ar ei rhan. Roedd ei Gymdeithas yn cefnogi'n llwyr gynigion y Comisiwn i symud Bargoed (5), Gilfach (12) ac Aberbargoed (1) fel yr ateb gorau i'r broblem anghyfartaledd. Nid oedd yn credu byddai'r gwrthgynigion yn ei ateb yn foddhaol, nid lleiaf oherwydd bod y tair adran yn un uned homogenaidd.

55. Rhoddodd **Julian Henderson, Dirprwy Gadeirydd Cymdeithas Geidwadol Caerffili,** dystiolaeth ar "fater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer" ac roedd yn cefnogi'n llwyr gynigion y Comisiwn. Credai fod gan y tair adran gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol a oedd yn cyfiawnhau eu cadw gyda'i gilydd yn ogystal â chysylltiadau ag etholaeth Islwyn – er, pan gafodd ei holi, methodd eu harddangos yn llawn iawn. Roedd cysylltiadau cludiant da yn bodoli. Y cynnig hwn oedd y ffordd i fodloni'r gofynion paredd.

56. Siaradodd **Dr Kim Howells, AS ar gyfer Pontypridd,** yn bennaf am "fater Cilfynydd a Glyncoch". Dywedodd fod y cymunedau hyn yn "*rhan o gymuned organig Pontypridd*" ac roedd eu cysylltiadau, yn economaidd ac yn hanesyddol, gyda Phontypridd. Cynhyrchodd gyfarfod lleol a drefnwyd ganddo, gynulleidfa fawr a oedd yn erbyn cynigion y Comisiwn. Rhagwelai pobl newidiadau cyfeiriad posibl yn y ddarpariaeth iechyd ac addysg ac er iddo geisio lleddfu pryderon felly, nid oedd yn siwr a oedd pobl yn ei gredu.

57. O gael ei holi gan Mr Smart, manteisiodd Dr Howells ar y cyfle i atgoffa'r Comisiwn fod yn rhaid i bobl gael ymdeimlad o gymuned i fod yn rhan o'r broses wleidyddol ac nad "ysgaru" cymunedau yn erbyn eu dymuniadau oedd y ffordd o gynnwys pobl.

58. Ildiodd Dr Howells fod y cynigion sy'n effeithio ar Ben-tyrch (19) ac ardaloedd i Dde etholaeth Pontypridd "*yn fwy anodd i'w hamddiffyn*". Yn ei dystiolaeth, ni chynigiodd unrhyw resymau penodol pam na ddylid trosglwyddo'r ardaloedd hyn fel a gynigiwyd.

59. Dywedodd **Mr Chris Davies,** yn gyn Gynghorydd ac yn un o drigolion Cilfynydd, bod Glyncoch (15) a Chilfynydd (9) yn rhan o Bontypridd. Nid oedd rhesymeg am eu tynnu i ffwrdd – pam rhoi'r gorau iddi fan hyn? Edrychai'r gymuned at Bontypridd ac at eu cynrychiolydd yno a byddai'r trosglwyddiad yn "*tynnu ymaith ymroddiad y cymunedau hynny i'r broses ddemocrataidd*". Wrth ateb Mr Harvey, un o drigolion Cilfynydd, dywedodd fod y ddwy adran yn rhan o Bontypridd, nad oeddech yn gallu eu rhannu oddi wrthi yn syml.

60. Dywedodd **Steve Belzak, Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref a Chynghorydd Tref Cilfynydd,** fod fwy neu lai 100% o wrthwynebiad gan bobl leol. At hynny, roedd hi'n anodd gwahanu ward Cilfynydd oddi wrth ei chymdogion. Byddai pobl yn teimlo eu bod yn methu uniaethu â'r broses wleidyddol ac ni fydd gwybodaeth wleidyddol leol yn treiddio trwy'r gymuned.

61. Cefnogodd **Gary Owen, Plaid Lafur Pontypridd,** sylwadau Dr Howells a chyflwyniadau ysgrifenedig Jane Davidson AC (y cafodd ei hymddiheuriadau eu hanfon at yr Ymchwiliad) yn gryf ac am yr un rhesymau. Cododd faterion o amgyffrediad y boblogaeth ynghylch pa newidiadau yn y ddarpariaeth addysg neu iechyd, er enghraifft a allai ddilyn trosglwyddo'r

adrannau hyn, tra roedd yn cydnabod bod yna bryderon na fyddai'n cael eu gwireddu o bosibl. Ailadroddodd fod y teimladau'n gryf yn y cymunedau.

62. **Gwnaeth Mr Chris Smart, Cadeirydd Cymdeithas Etholaeth Geidwadol Ogwr, yn cynrychioli Plaid Geidwadol Cymru, Ceidwadwyr De Ddwyrain Cymru ac 13 Cymdeithas Geidwadol,** yn benodol, cefnogi'n gryf y cynnig i gyfuno'r ddwy sir gadwedig at ddiben yr adolygiad a dyrannu 13 etholaeth i'r ardal hon. Nodaf iddi ymddangos i'r ymagwedd hon gael cefnogaeth lwyr a dim gwrthwynebiad.

63. Cefnogodd yn fras ymagwedd y Comisiwn i gywiro'r anghyfartaledd rhwng etholaethau a darganfu fod y cynigion yn cyd-fynd â Rheolau 5 a 7. O'r saith etholaeth na wnaed unrhyw newidiadau i'w ffiniau a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr etholwyr presennol, nododd nad oedd unrhyw wrthwynebiad a chefnogaeth sylweddol, a gymeradwywyd yn gryf gan ei Blaid.

64. O ran "mater Abercynffig a Chefn Cribwr", derbyniodd Mr Smart y gallai rai cysylltiadau lleol gael eu torri ac roedd ganddo gydymdeimlad sylweddol i'r gwrthwynebiadau, yn enwedig o adran Cefn Cribwr (10). Fodd bynnag, dywedodd "*rydym yn credu bod y cynnig hwn* (hynny yw cynnig y Comisiwn) *yn gyfiawn ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â Rheol 5*." Nododd y byddai'r ffin newydd yn un cryf, sef traffordd yr M4.

65. Ar "fater Cilfynydd a Glyncoch", cydnabu unwaith eto bryderon am y cysylltiadau lleol ond nododd bod rhaid mynd i'r afael â'r anghyfartaledd. Byddai'r newid a gynigir yn uno cymuned Glyncoch yn un etholaeth. At ei gilydd, y cynnig oedd yr ateb gorau ar gyfer y ddwy etholaeth.

66. Ar "fater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer", cefnogodd safle dros dro y Comisiwn. Dywedodd fod tair adran Bargoed (5), Gilfach (12) ac Aberbargoed (1) "*yn mynd gyda'i gilydd fel un bloc*" ac er iddo gydnabod unwaith eto y cysylltiadau a allai gael eu torri, credai ei Blaid fod y newidiadau yn angenrheidiol. Nododd <u>nad</u> oedd ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i'r gwrthgynnig.

67. Gorffennodd Mr Smart trwy ddweud

"At ei gilydd, gofynnwn i chi, Mr Comisiynydd Cynorthwyol, i gynnig i'r Comisiwn fabwysiadu'r cynigion gwreiddiol fel y cydbwysedd gorau rhwng rheolau 5 a 7 y

Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986."

68. Cefnogodd **Mr David Costa, Dirprwy Ysgrifennydd ac yn cynrychioli Plaid Lafur Cymru,** ymagwedd gyffredinol y Comisiwn i'r ddwy sir gadwedig **ac** yn benodol, cefnogodd y safle mewn perthynas â'r saith etholaeth lle na chynigiwyd unrhyw newid a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr etholwyr. Credai ei Blaid y bydd y cynigion hyn *"yn cael cefnogaeth eang a sylwer bod nifer o gynrychiolaethau yn hyn o beth*."

69. Gan droi at "fater Cilfynydd a Glyncoch", dywedodd Mr Costa fod ei Blaid yn derbyn yn llwyr y byddai cysylltiadau lleol yn cael eu torri ac ni fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad petai'r Comisiwn yn casglu bod torri cysylltiadau a achosir gan newid yn rhy aflonyddgar. Fodd bynnag, cydnabu "*mewn perthynas ag etholaeth sirol Cwm Cynon, derbyniwn mai'r argymhellion dros dro i drosglwyddo adrannau Cilfynydd a Glyncoch o etholaeth sirol Pontypridd yw'r unig opsiwn sydd ar gael i gynyddu nifer ei etholwyr…Fodd bynnag, nodwn, ochr yn ochr â throsglwyddo Pen-tyrch a rhan o Greigiau/Sain Ffagan i etholaeth fwrdeistref Gorllewin Caerdydd, bod y cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd rhwng etholaeth sirol Cwm Cynon ac etholaeth sirol Pontypridd o 18,519 i 5,850 a gallai'r Comisiwn gymryd y farn y dylai amodau Rheol 5 yr Atodlen gael blaenoriaeth."*

70. Ar "fater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer", dywedodd Mr Costa fod ei Blaid yn cydnabod yr angen i leihau'r anghyfartaledd a bod cynigion y Comisiwn yn gwneud hyn, ond ni fyddant yn gwrthwynebu naill ai'r gwrthgynnig neu i gynnal y sefyllfa bresennol petai'r Comisiwn yn credu y dylai'r ddadl ynghylch cysylltiadau lleol orchfygu. Cydnabuwyd ganddynt rym y dadleuon a oedd yn awgrymu bod yr afon yn ffurfio'r ffin a soniodd am y manteision o wneud hynny.

71. Ar y "mater Abercynffig a Chefn Cribwr," dywedodd Mr Costa fod ei Blaid yn credu bod achos Rheol 5 yn llai grymus na mewn mannau eraill. Petai'r ddadl ynghylch cysylltiadau lleol yn gorchfygu, *"ni fyddai'r anghysonderau a fyddai'n parhau yn ormodol nac yn annerbyniol"*.

72. O gael ei holi gan Mrs Pole, cytunodd Mr Costa fod y Blaid Lafur *"yn cefnogi pensaernïaeth fras y cynigion….Ar y llaw arall, mae materion, fel Cefn Cribwr, lle rydym llawer mwy amheuol amdano. Gallwn weld nad oes angen i'r rheiny amau pwyslais bras cynigion y Comisiwn ac ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad petai'r Comisiwn yn penderfynu yn y bensaernïaeth fras honno y gallai ffitio i mewn gyda Chefn Cribwr yn aros lle y mae."*

73. **Cododd Mr Mansel Lalis, Ysgrifennydd Plaid Lafur Ewenni a'r Fro,** wrthwynebiadau i'w ran ef o Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei throsglwyddo i Fro Morgannwg. Dywedodd fod cysylltiadau'r cymunedau hyn yn sefyll gyda Phen-y-bont ar Ogwr a dylai'r ystyriaethau hyn gael blaenoriaeth yn ystyriaethau'r Comisiwn. O gael ei holi gan Mr Smart, cytunodd Mr Lalis, mewn refferendwm yn y gymuned, cytunodd y mwyafrif i aros ym Mro Morgannwg at ddibenion awdurdod lleol. Serch hynny, dywedodd ei fod yn credu bod y mwyafrif am aros yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

74. Tystiolaeth **Mr Smart** ar y mater hwn oedd bod Rheol 4 yn gofyn am gynnwys yr adrannau hyn yn Ne Morgannwg a chan nad oedd hyn yn cynhyrchu unrhyw anghyfartaledd gormodol, ni ellid defnyddio Rheol 5 i'w ddiystyru. Gwnaeth Mr Costa (Plaid Lafur Cymru) bwynt tebyg:

    "Derbyniwn yn llwyr gynnig y Comisiwn i gynnwys yr etholwyr hyn yn etholaeth bwrdeistref Gorllewin Caerdydd ac etholaeth sirol Bro Morgannwg fel sy'n ofynnol dan delerau Rheol 4. Nodwn fod yna rai gwrthwynebiadau i'r cynnig hwn ond yn absenoldeb unrhyw wrthgynnig cynhwysfawr, credwn nad oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis difrifol arall."

75. Yn yr Ymchwiliad, cefais fy ngwahodd i fynd i ardaloedd a ffiniau Bargoed (15), Aberbargoed (1) a Gilfach (12) a hefyd i ardaloedd Cilfynydd (9) a Glyncoch (15), yr ymwelais â phob un ohonynt.

76. Cafwyd dwy gynrychiolaeth ysgrifenedig bellach (yn nodi gwrthwynebiadau i drosglwyddo Cefn Cribwr) gan Madeleine Moon a'r Cynghorydd Edith M. Hughes ar ôl i'r ymchwiliad lleol gael ei gyhoeddi. Rwyf wedi ystyried eu cynnwys. Mae copïau o'r rhain a'r holl gynrychiolaethau eraill a wnaed yn dilyn cyhoeddi Argymhellion Dros Dro y Comisiwn ar gael o Swyddfeydd y Comisiwn.

CASGLIADAU

77. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ysgrifenedig a'r holl dystiolaeth a'r cyflwyniadau a wnaed i mi yn yr ymchwiliad, mae fy arsylwadau a chasgliadau fel a ganlyn:

(1) Mae yna gymeradwyaeth gyffredinol gryf i'r camau a gymerwyd gan y Comisiwn i ystyried a delio â'r ddwy sir gadwedig fel un endid;

(2) Mae yna gefnogaeth gyffredinol gryf ac nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion ar gyfer y saith etholaeth, nad ydynt yn wynebu unrhyw newid o ran etholwyr yn dilyn yr Argymhellion Dros Dro

(3) Mae ychydig wrthwynebiad a llawer o gefnogaeth dros y cynnig i drosglwyddo Saint-y-brid (20), Llandŵ / Ewenni (13) o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i etholaeth Bro Morgannwg ac o gofio'r gofynion mewn perthynas â ffiniau llywodraeth leol, ac absenoldeb unrhyw wrthgynnig, nid oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis ond i drosglwyddo.

(4) Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gwirioneddol neu gynaliadwy ac roedd llawer o gefnogaeth dros drosglwyddo Pen-tyrch (19), Sain Ffagan a Chreigiau (6) i etholaeth Gorllewin Caerdydd.

(5) Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gwirioneddol neu gynaliadwy ac roedd llawer o gefnogaeth dros drosglwyddo'r Bont-faen gyfan (7) i etholaeth Bro Morgannwg.

(6) <u>"Mater Abercynffig a Chefn Cribwr"</u>
Ni ellir amau cryfder teimladau lleol mewn perthynas â'r mater hwn. Mae'r pleidiau'n ganolog naill ai'n cefnogi neu maent yn niwtral o ran a ddylid trosglwyddo ai peidio ond cydnabuwyd ar bob ochr y bydd o leiaf rai cysylltiadau lleol yn cael eu torri. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael fy mherswadio y byddai unrhyw broblemau felly a godir trwy drosglwyddo yn anorchfygol neu, mewn realiti, mor sylweddol y dylent ddisodli amcanion Rheol 5.

Awgrymir gan y sawl sy'n gwrthwynebu fod "dim newid" yn opsiwn gan y byddai Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i beidio â bod y sedd fwyaf yn y ddwy sir ac nid Ogwr fyddai'r lleiaf. Fodd bynnag, rhaid i'r gofyniad i geisio am gydraddoldeb â'r cwota, cyhyd â bod hynny'n resymol bosibl, gael ei weithredu ac ni roddwyd unrhyw wrthgynnig gerbron i'w gyflawni, (ond, awgrymodd y Cyng Edith Hughes yn ei chynrychiolaeth ysgrifenedig ar 21 Mehefin 2004, Llangrallo Isaf (14) yn lle Cefn Cribwr (10), ond ni ddatblygwyd cynigion felly ac ni chawsant eu hystyried o ddifrif gan unrhyw un arall).

(7) <u>"Mater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer"</u>

Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth gadarn o blaid cynigion y Comisiwn ond roedd mwyafrif y cynrychiolaethau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd o blaid y gwrthgynnig, yn enwedig gan bobl a sefydliadau lleol. Er ei bod yn wir nad yw'r gwrthgynnig yn cywiro'r anghyfartaledd i'r un graddau â chynigion dros dro y Comisiwn, mae'n mynd yn bell iawn tuag at gyflawni'r un canlyniad. Mae tri ffactor ychwanegol, yn benodol, yn ymddangos yn bwysig wrth ystyried y mater hwn:

- Bu Afon Rhymni yn ffin i'r etholaethau yn hanesyddol (o leiaf tan 1983) ac felly fe allai gael ei hystyried yn gywir fel ffin weinyddol a gwleidyddol naturiol;
- Byddai cysylltiadau lleol yn cael eu torri trwy drosglwyddo Bargoed (5) a Gilfach (12) i etholaeth Islwyn ac, er y gellid dweud yr un peth am Aberbargoed (1), ar y dystiolaeth, roedd ei chysylltiadau o leiaf yn rhannol eisoes gydag etholaeth Islwyn;
- Er gwaetha'r cyfle, ar ôl misoedd o ddadlau yn lleol ar y mater, ni wnaed cynrychiolaethau ar ran Maesycwmmer (15) yn nodi unrhyw wrthwynebiad i'r gwrthgynnig.

(8) <u>"Mater Cilfynydd a Glyncoch"</u>

Unwaith eto, mae'n ymddangos bod teimladau cryf sylweddol yn lleol am y mater hwn. Fodd bynnag, er y bydd rhai cysylltiadau lleol yn cael eu torri, nid oedd tystiolaeth rymus y byddai unrhyw anhawster neu anghyfleustra sylweddol. Yn wir, roedd y dystiolaeth yn siarad mwy am amgyffrediadau'r bobl nag am anghyfleustra gwirioneddol, ond rwy'n cydnabod y gallai amgyffrediadau chwarae rhyw ran yn ystyriaethau'r Comisiwn.

O gofio'r anghyfartaledd rhwng etholaethau Pontypridd a Chwm Cynon, ac absenoldeb unrhyw gynnig arall i fynd i'r afael ag ef, ni chefais fy mherswadio fod unrhyw wrthwynebiad cynaliadwy yn codi a ddylai ddisodli Rheol 5 neu resymu gwreiddiol y Comisiwn.

ARGYMHELLION

78. Am y rhesymau a amlinellir uchod, rwy'n argymell fod y Comisiwn yn ailddatgan ei argymhellion dros dro ar gyfer y ddwy sir gadwedig ym mhob achos ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â "mater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer". Er y byddai cynigion dros dro y Comisiwn fan hyn yn cyflawni'r canlyniad dymunol o leihau'r anghyfartaledd rhwng etholaethau Caerffili ac Islwyn, mae gan y gwrthgynnig, sy'n cyflawni canlyniad tebyg (er ei fod yn llai boddhaol yn rhifyddol) y manteision canlynol:

- Mae'n cydnabod ac yn defnyddio Afon Rhymni fel ffin ddaearyddol naturiol – mae'n glir y bu'n ffin hanesyddol a gweinyddol hirsefydlog. Bu adrannau Aberbargoed (1) a Maesycwmmer (15), sy'n disgyn i ddwyrain ffin yr afon, yn rhan o etholaeth Bedwellte yn flaenorol a oedd i bob pwrpas yn rhagflaenydd Islwyn;
- Mae'n torri llai o gysylltiadau lleol;
- Mae'n ymddangos nad oes unrhyw wrthwynebiadau sylweddol i drosglwyddo i etholaeth Islwyn o adran Maesycwmmer – yn sicr ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i mi nac mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig.

79. Yn unol â hynny, rwy'n argymell fod y Comisiwn yn tynnu'r argymhelliad dros dro yn ôl yn hyn o beth a bod y cynigion a nodir yn y gwrthgynnig yn cael eu derbyn. Ni fyddai mabwysiadu'r gwrthgynnig yn tramgwyddo unrhyw feini prawf statudol, y mae'n rhaid i'r Comisiwn lynu atynt. At hynny, mae'r materion perthnasol, gan yr ymdriniwyd â hwy'n gynharach trwy'r cyflwyniad ysgrifenedig a thrwy ddosbarthu'r gwrthgynigion, nid yw'n ymddangos i mi y byddai unrhyw gynrychiolaeth bellach sylweddol mewn gwrthwynebiad iddo yn debygol o ddod i'r amlwg. Byddai'n

ymddangos yn annhebygol felly na fyddai'r Comisiwn yn ei ystyried yn angenrheidiol i gynnal unrhyw Ymchwiliad pellach i'r mater hwn.

80. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth o'r dystiolaeth a'r cynrychiolaethau a gafwyd y bydd cynigion y Comisiwn cyfan yn cael cefnogaeth eang. Fodd bynnag, rwy'n fodlon fod y gwrthgynnig ar gyfer "mater Bargoed, Gilfach a Maesycwmmer" yn cael llawer mwy o gefnogaeth gyhoeddus nag argymhelliad dros dro gwreiddiol y Comisiwn.

Gerard Elias CF
12 Awst 2004